Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Ebrill 2023

Annwyl ,

**ATISN 17270**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 8 March 2023. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Yr holl ohebiaeth ysgrifenedig sy'n ymwneud â darlledu yng Nghymru rhwng ac ar ran Jeremy Hunt neu yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru neu Lywodraeth Cymru, yn ystod cyfnod Jeremy Hunt yn Ysgrifennydd Diwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon (2010–2012).

**Ein hymateb**

Amgaeaf gopi o'r wybodaeth yr wyf wedi penderfynu ei rhyddhau.

Rwyf wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Annex to Template Letter 8**

**Esemptiadau/eithriadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i'r byd, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam o defnu bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd i bawb. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Enwau ymgeiswyr posibl, ac enw ymgeisydd llwyddiannus a dynnodd yn ôl yn ddiweddarach.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

**Gweithredu adran 40(2) (data personol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai data personol trydydd parti fod yn esempt o'r gofynion datgelu. Mae hyn oherwydd i'r partïon gael eu henwi heb yn wybod iddynt, na heb eu cytundeb. Maent yn parhau i weithio yn y sector, a byddai rhyddhau'r wybodaeth iddynt gael eu hawgrymu i'r parth cyhoeddus yn debygol o gael sgil-effeithiau o fewn eu rolau presennol.

O dan Adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'u hesemptio rhag cael eu rhyddhau pe bai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR. Credwn mai'r egwyddor sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r un cyntaf. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddata personol fod wedi'u:

*"prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â thestun y data."*

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hyn yn nodi:

*"mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu trechu gan fuddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid testun y data y mae angen diogelu data personol, yn enwedig pan fo testun y data yn blentyn".*
Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol:-

- **Y prawf buddiant cyfreithlon:** A yw'r cais am wybodaeth yn seiliedig ar fuddiant cyfreithlon;

- **Y prawf angenrheidrwydd:** A oes angen datgelu'r wybodaeth/cadarnhad neu wadu ei bod yn cael ei gadw er mwyn bodloni'r buddiant cyfreithlon dan sylw;
- **Y prawf cydbwyso:** A yw'r buddiannau uchod yn drech na buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid testun y data.

Nodir ein hystyriaeth o'r profion hyn isod:

**1. Prawf buddiant cyfreithlon**

Mae buddiant cyfreithlon o ran tryloywder a'r llywodraeth yn bod yn agored, ac wrth ddeall y cyd-destun y gwneir penderfyniadau ynddynt.

**2. A oes angen datgelu?**

Nid oes angen datgelu'r enwau er mwyn deall cyd-destun y broses o wneud penderfyniadau ei hun, ond byddai'n angenrheidiol pe bai'r cais am wybodaeth yn ymwneud â dealltwriaeth o'r mathau a'r ystod o brofiad a ystyriwyd ar gyfer y rôl.

**3. Y cydbwysedd rhwng buddiannau cyfreithlon a buddiannau neu hawliau sylfaenol a rhyddid testun y data**

Nid yw'n glir o'r cais hwn fod unrhyw ofyniad gwybodaeth i wybod enwau unigolion yr awgrymwyd eu henwau. Yn hytrach, mae'r cais yn ceisio deall cyd-destun y broses o wneud penderfyniadau ei hun. Gan fod yr wybodaeth hon yn ymylol i'r cyd-destun hwnnw, gwelaf nad oes budd cyhoeddus o ryddhau'r enwau, sy'n ddigonol i fod yn drech na'u hawliau sylfaenol a'u rhyddid i beidio â chael eu henwi. Felly, mae'r wybodaeth yn cael ei chadw yn ôl.